1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Dydd Iau 20 Medi 2007

Effaith y Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar Athrawon, Ysgolion ac ar Wella Cyflawniad Dysgwyr

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw, mae Estyn yn adrodd ar gynnydd a wneir gan athrawon sydd wedi cymryd cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus trwy'r Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gweinyddir y rhaglen gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Gall athrawon wneud cais am gyllid a'i dderbyn ar gyfer rhwydweithiau proffesiynol, cynlluniau sabothol, bwrsariaethau datblygiad proffesiynol, ysgoloriaethau ymchwil a bwrsariaethau grŵp. Trwy'r rhaglenni hyn, gall athrawon dderbyn lleoliadau byr mewn awdurdodau addysg lleol neu gyrff cenedlaethol, mewn diwydiant neu fusnes a gweithio'n gydweithredol gyda chydweithwyr yn eu hysgolion eu hunain neu ysgolion eraill i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio.

Mae Estyn yn canfod bod y cyllid sydd ar gael yn darparu'n dda ar gyfer anghenion ac arddulliau dysgu gwahanol athrawon, ac mae'n rhoi cyfleoedd da i athrawon ddatblygu gwybodaeth a medrau newydd, ac ymagweddau arloesol tuag at addysgu a dysgu.

"Mae'r cyllid yn rhoi cyfle i athrawon nodi a dilyn eu hanghenion datblygu eu hunain. Mae'r cyfle hwn yn cael effaith bwerus a chadarnhaol ar y rhan fwyaf o athrawon. Mae'n gwneud

iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'n ailfywiogi'r ffordd y maent yn gweithio ac yn addysgu yn yr ysgol.
Mae'r athrawon sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol trwy'r cyllid hwn yn darparu modelau rôl da o ran dysgu gydol oes ar gyfer athrawon eraill mewn ysgolion," meddai Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn canfod yn gyffredinol nad yw athrawon yn mesur effaith y gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus ar godi safonau disgyblion yn effeithiol. Mae Estyn yn argymell bod angen i athrawon wneud mwy i gynllunio, monitro ac arfarnu effaith unrhyw syniadau newydd y maent yn eu cyflwyno yn eu gwersi ar ddysgu disgyblion, a sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth a chanlyniadau datblygiad proffesiynol ag athrawon eraill a staff cymorth.

Mae'r arolygiaeth yn adrodd nad oes ar hyn o bryd un categori ariannu unigol i annog staff eraill, fel cynorthwywyr meithrin, cynorthwywyr cymorth dysgu, athrawon addysg bellach neu weithwyr ieuenctid, i weithio gydag athrawon i wella gweithio ar y cyd. Mae hyn yn rhwystro datblygiad dealltwriaeth yr holl bartïon o arferion a diwylliannau gweithio ei gilydd, a'r ffordd y gallant weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er budd disgyblion.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Comisiynwyd adroddiad Estyn "Effaith y Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar Athrawon, Ysgolion ac ar Wella Cyflawniad Disgyblion" gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi ei gyhoeddi yn www.estyn.gov.uk.

- Er 2001, mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wedi gweinyddu rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus wedi ei hariannu ar gyfer athrawon ar ganol eu gyrfa ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn rhaglen beilot dair blynedd yn wreiddiol, daeth yn barhaol o 1 Ebrill 2004.

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu'r cyllid canlynol i gefnogi'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus rhwng Ebrill 2005 a Mawrth 2008:

  2005/2006: £2 filiwn

  2006/2007: £2.86 miliwn

  2007/2008: £2.86 miliwn

- Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn am gyngor ar effaith rhaglen 2005 – 2008 o fwrsariaethau datblygiad proffesiynol parhaus ar athrawon oedd yn cymryd rhan, eu hysgolion a chodi safonau cyflawniad disgyblion.

- Er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, edrychodd arolygwyr ar ganlyniadau prosiectau datblygiad proffesiynol parhaus wedi eu cwblhau o 2005 – 2006 ac ar y canlyniadau oedd yn dod i'r amlwg o brosiectau datblygiad proffesiynol parhaus a ddechreuodd yn 2006 – 2007. Fe wnaeth pob arolygydd olrhain categori penodol o fwrsariaeth datblygiad proffesiynol parhaus. Ymwelodd arolygwyr â sampl o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ar draws Cymru, yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cafodd dros 50 o athrawon gyfweliadau, a lle y bo'n briodol, cynhaliwyd cyfweliadau â phenaethiaid, cydlynwyr datblygiad proffesiynol parhaus a mentoriaid ymchwil. Edrychodd yr arolygwyr hefyd ar ffurflenni cais ac adroddiadau'r athrawon, portffolios tystiolaeth yn dangos sut yr oedd athrawon yn cymhwyso gwybodaeth a medrau newydd ac enghreifftiau o waith disgyblion sy'n rhoi tystiolaeth o welliant.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
communications@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464